



Coleg Gwent

# ATAL TWYLL A GWRTH-LYGREDD

## POLISI

# POLISI GWRTH-DWYLL A LLWGRWOBRWYO

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** | I ddilyn |
| **Cymeradwywyd gan:** | Y Pwyllgor Archwilio ac mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur |
| **Haen:** | 2 |
| **Awdur:** | Lynda Astell - Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 06/05/2025 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 06/05/2027 |
| **Cyhoeddwyd ar:** | Gwefan<br>Mewnrwyd y Staff<br>CG Connect |
| **Hygyrchedd:** | Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais |

Gall y copi hwn fod yn hen os yw wedi'i argraffu.

Mae ein holl bolisïau a gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar [fewnrwyd y staff].

| Eitem | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair gan Fwrdd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth | 1 |
| Beth yw Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd? - Diffiniadau | 2 |
| Datganiad Polisi | 4 |
| Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd | 5 |
| Riportio Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd | 6 |
| Cysylltiadau Defnyddiol | 9 |
| Polisïau a dogfennau cysylltiedig | 10 |

**RHAGAIR**

Yng Ngholeg Gwent rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ein hasedau ac i onestrwydd a didwylledd yn ein holl weithgareddau.  Adlewyrchir hyn yng ngwerthoedd ac ymddygiad disgwyliedig ein coleg.

Rydym yn cynnal ein busnes mewn modd agored, gonest a theg.  O'r herwydd, disgwylir i'r holl lywodraethwyr, staff a thrydydd partïon sy'n gweithio ar ran y Coleg, boed yn barhaol neu dros dro, fabwysiadu'r safonau uchaf o briodoldeb ac atebolrwydd, a chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd.

Rydym yn benderfynol o atal, rhwystro a chanfod pob math o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, boed hynny gan bartïon mewnol neu allanol.

Bydd pob achos o amheuaeth o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd yn cael ei ymchwilio'n drylwyr a'i drin yn briodol. Bydd y math o gamau a gymerir yn dibynnu ar lefel ac amgylchiadau'r twyll a gaiff ei ddarganfod.  Gall hyn gynnwys gweithdrefnau disgyblu, diswyddo a/neu erlyniad troseddol a byddwn bob amser yn ceisio adennill arian a gollwyd drwy dwyll.

Disgwylir i'r holl lywodraethwyr a staff ymddwyn yn unol â'n Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiadau, ein Cod Ymddygiad a'r egwyddorion “Nolan” sy'n sail i'r diwylliant gwrth-dwyll ac sy'n seiliedig ar y Saith Egwyddor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus canlynol:

1. **Anhunanoldeb** - dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael budd ariannol na budd materol arall iddynt eu hunain, eu teuluoedd na'u ffrindiau.

2. **Didwylledd** - ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu arnynt yn eu dyletswyddau swyddogol.

3. **Gwrthrychedd** - wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau neu fuddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

4. **Atebolrwydd** - mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt fod yn agored i ba bynnag graffu cyhoeddus sy'n briodol i'w rôl.

5. **Bod yn agored** - dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'r camau maen nhw'n eu cymryd. Dylent roi rhesymau clir dros eu penderfyniadau a chyfyngu ar wybodaeth dim ond pan fydd budd ehangach y cyhoedd (neu ddeddfwriaeth) yn mynnu hynny.

6. **Gonestrwydd** - mae gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

7. **Arweinyddiaeth** - dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

Nod y polisi hwn yw diffinio twyll, llwgrwobrwyo a llygredd; tynnu sylw at reolaethau ataliol sydd ar waith i fynd i'r afael â thwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd ac egluro sut i roi gwybod am amheuon o ymddygiad o'r fath.

## 1. BETH YW TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD?

### Diffiniad o Dwyll

At ddibenion y polisi hwn, diffinnir twyll fel defnyddio dichell i amddifadu, difrïo neu achosi colled i unigolyn neu barti arall. Gall hyn gynnwys dwyn, camddefnyddio cyllid neu adnoddau eraill neu droseddau mwy cymhleth fel cyfrifyddu ffug a darparu gwybodaeth ffug neu gamliwio.

Cyflwynodd Deddf Twyll 2006 dair prif drosedd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

| Trosedd | Enghraifft |
|---|---|
| **Twyll drwy ymhoniad anwir** | dweud celwydd ar CV i gael gwaith |
| **Twyll drwy gamddefnyddio swydd** | rheolwr cyllid yn defnyddio ei swydd i embeslu arian |
| **Twyll drwy fethu â datgelu gwybodaeth** | peidio â datgan euogfarn droseddol heb ei disbyddu er mwyn cael gwaith |

Byddai enghreifftiau o dwyll a allai ddigwydd yn y Coleg yn cynnwys (nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr nac yn gyfyngedig a bydd troseddau eraill tebyg yn cael eu trin o dan y polisi hwn):

- ffugio hawliadau treuliau neu hawliadau tâl
- camddefnyddio'r hawl i wyliau blynyddol
- dwyn arian parod neu asedau neu stoc arall o'r coleg
- ffugio anfonebau neu gofnodion eraill i gaffael taliad
- methu rhoi cyfrif am arian neu anfonebau a dalwyd
- camddefnyddio'r cynllun salwch
- defnyddio eiddo ac offer y coleg heb awdurdod
- defnydd amhriodol o gyfleusterau, eiddo neu offer y coleg er budd personol
- ymgymryd â gweithgareddau cyflogaeth eraill neu fod yn absennol fel arall heb awdurdod yn ystod oriau contract y coleg
- ffugio hawliadau/cofnodion canlyniadau dysgwyr
- ffugio cymwysterau er mwyn cael gwaith
- peidio â datgelu buddiant personol mewn busnesau y mae'r coleg yn contractio gwasanaethau neu gyflenwadau gyda nhw. Gweler paragraff 20.2

Bydd unigolyn sy'n cyflawni twyll yn wynebu camau disgyblu, camau sifil a/neu erlyniad troseddol. Os ceir unigolyn yn euog o dwyll mewn llys troseddol, gall gael dedfryd o garchar am hyd at ddeng mlynedd. Gellir dileu enw'r unigolyn oddi ar y gofrestr hefyd os yw'n aelod o gorff proffesiynol.

### Diffiniad o Lwgrwobrwyo

Llwgrwobrwyo yw cynnig, addo, rhoi, derbyn neu geisio mantais fel cymhelliant ar gyfer gweithred anfoesegol, anghyfreithlon neu dor-ymddiriedaeth. Nid oes rhaid i lwgrwobrwyo gynnwys arian parod na thaliad go iawn yn cyfnewid dwylo a gall fod ar sawl ffurf, fel rhodd (h.y. profiadau drudfawr yn ystod taith fusnes neu docynnau i ddigwyddiad er mwyn ennill contract).

Nid yw llwgrwobrwyo bob amser yn arwain at golled. Efallai na fydd y person llwgr yn elwa'n uniongyrchol o'i weithredoedd; fodd bynnag, efallai ei fod yn defnyddio ei swydd yn afresymol i roi rhywfaint o fantais i rywun arall.

Mae Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn darparu'r pedair prif drosedd:

- rhoi neu gynnig llwgrwobr
- derbyn neu ofyn am lwgrwobr
- llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor (a elwir hefyd yn daliadau hwyluso)
- methu'n esgeulus ag atal llwgrwobr (trosedd corfforaethol)

O dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo, gall trosedd fod wedi'i chyflawni hyd yn oed os nad oes arian na nwyddau wedi'u cyfnewid, ac nid oes isafswm gwerth i lwgrwobr.

Gall unigolion sy'n cyflawni llwgrwobrwyo yn erbyn y Coleg wynebu erlyniad troseddol, achos sifil, camau disgyblu a/neu ddiswyddo (os yw'r unigolyn yn aelod o gorff proffesiynol). Os ceir yr unigolyn yn euog o lwgrwobrwyo, gall gael dedfryd o ddeng mlynedd o garchar a dirwyon diderfyn.

**Diffiniad o Lygredd**

Gellir ystyried llygredd fel y term cyffredinol i ddisgrifio math o anonestrwydd neu drosedd sy'n cael ei gyflawni gan unigolyn neu sefydliad sydd mewn sefyllfa o awdurdod, er mwyn cael budd anghyfreithlon, neu gamddefnyddio pŵer er elw. Gall hyn gynnwys twyll a llwgrwobrwyo.


**Gwyngalchu Arian**

Gall gweithgareddau anghyfreithlon a thwyllodrus fel y rhai a ddisgrifir uchod gynnwys Gwyngalchu Arian. Dyma'r broses o wneud i symiau mawr o arian a gafwyd drwy droseddau, fel masnachu cyffuriau ymddangos fel pe baent wedi dod o ffynhonnell gyfreithlon.

Er bod y Coleg yn credu bod y risg o wyngalchu arian yn ei weithrediadau yn isel, dylai staff allweddol fod yn arbennig o effro i sefyllfaoedd lle mae arian yn llifo drwy'r Coleg o ffynonellau anghyfarwydd; lle mae perthnasoedd busnes newydd yn cael eu ffurfio neu lle mae trafodion untro sylweddol yn cael eu nodi.

Mae gwyngalchu arian yn broses benodol a chymhleth a bydd angen i staff mewn rolau trin arian parod/rheoli trysorlys fod yn effro i botensial gwyngalchu arian. Dylai staff edrych ar ganllawiau'r Coleg ar atal gwyngalchu arian (Polisi Rheoli'r Trysorlys - TMP9) a dylid cyfeirio unrhyw amheuaeth y gallai gwyngalchu arian fod yn digwydd yn y Coleg ar unwaith at y Cyfarwyddwr Cyllid, Ystadau a Chyfleusterau neu'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio).

## 2. DATGANIAD POLISI




Respect for All
Communication
Solutions Driven
Act with Integrity
Always Learner First

Parch i Bawb
Cyfathrebu
Ysgogi drwy Atebion
Gweithredu'n Ddidwyll
Y Dysgwyr yn Gyntaf Bob Amser

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn onest ac yn ddidwyll ac mewn ffordd gyfrifol a thryloyw. Rydym yn disgwyl i'r holl lywodraethwyr, staff a'r rheini sy'n gweithio i ni gynnal safonau ymddygiad uchel yn unol â'n Gwerthoedd Craidd fel yr amlinellir uchod a'n Codau Ymddygiad Llywodraethwyr a Staff

Mae Coleg Gwent yn gwerthfawrogi ei enw da am ymddygiad moesegol ac am onestrwydd a dibynadwyedd ariannol.

Rydym yn ymdrechu i wasanaethu ein dysgwyr hyd eithaf ein gallu, yn agored ac yn onest. Bydd unrhyw ymwneud â llwgrwobrwyo, llygredd a thwyll yn adlewyrchu'n andwyol ar ein delwedd a'n henw da ac ni fyddwn yn goddef ymddygiad o'r fath.

Er mwyn cynnal ymddiriedaeth ein dysgwyr a'n partneriaid a'n henw da rhagorol, rydym wedi:

- Nodi polisi gwrth-lwgrwobrwyo, llygredd a thwyll clir.
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad i bob gweithiwr er mwyn iddynt allu adnabod ac osgoi'r defnydd o lwgrwobrwyo ganddynt eu hunain ac eraill ac osgoi unrhyw weithgarwch a allai gael ei ystyried yn llwgr a/neu'n dwyllodrus.
- Annog staff i fod yn wyliadwrus a rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth o lwgrwobrwyo, llygredigaeth neu dwyll, gan roi sianeli cyfathrebu addas iddynt a sicrhau bod gwybodaeth sensitif yn cael ei thrin yn briodol.
- Ymchwilio'n drwyadl i unrhyw achosion o gamymddwyn honedig o'r fath a chynorthwyo'r heddlu ac awdurdodau priodol eraill mewn unrhyw erlyniad dilynol.
- Cymryd camau cadarn a thrylwyr yn erbyn unrhyw unigolyn/unigolion sy'n ymwneud â llwgrwobrwyo, llygredd neu dwyll.

## 3. ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD

Mae'r Coleg yn gweithredu o fewn fframwaith cadarn o ymddygiad disgwyliedig a rheolaeth fewnol sy'n cynnwys gwerthoedd ac ymddygiad, y cod ymddygiad a systemau a gweithdrefnau, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol a'r polisi a'r weithdrefn gaffael. Mae'r rhain wedi'u cynllunio, yn rhannol, i atal twyll a llygredd ac i wella atebolrwydd. Mae angen i lywodraethwyr, staff a thrydydd partïon sy'n gweithio ar ein rhan weithredu yn unol â'r fframwaith hwn.

Mae gan y Coleg systemau a gweithdrefnau sy'n ymgorffori rheolaethau mewnol cadarn sydd wedi'u cynllunio i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Mae'n ofynnol i reolwyr nodi'r risgiau y

mae systemau'n agored iddynt (gan gynnwys y risg o dwyll), datblygu a chynnal rheolaethau i liniaru a rheoli'r risgiau a sicrhau y cydymffurfir yn briodol â rheolaethau o'r fath. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi twyll a seiberdroseddu fel risgiau allweddol i'r Coleg ac yn cyflwyno'r camau lliniaru sydd ar waith i leihau'r risg. Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Coleg yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, fel rhan o'u rhaglen archwilio flynyddol, i roi sicrwydd i reolwyr, y CMT a'r Pwyllgor Archwilio.

Mesur ataliol allweddol i leihau'r risg o dwyll a llygredigaeth yw cymryd camau effeithiol yn ystod y cam recriwtio i sefydlu, cyn belled ag y bo modd, hanes blaenorol darpar staff o ran eu priodoldeb a'u huniondeb. Yn hyn o beth, dylid trin staff dros dro yn yr un modd â staff parhaol. Dylai recriwtio staff fod yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y polisïau Adnoddau Dynol perthnasol, a dylid cael geirdaon ysgrifenedig cyn gwneud cynigion cyflogaeth ffurfiol.

Rhaid i Benaethiaid Cynorthwyol, Cyfarwyddwyr a deiliaid Uwch Swyddi:

- ddatgelu manylion unrhyw sefydliadau y mae ganddynt swydd o awdurdod neu fuddiant materol arall ynddynt ac y gallai eu busnes ddod â hwy i gysylltiad â'r Coleg.
- Datgelu unrhyw drafodion rhwng y Coleg a phartïon sy'n gysylltiedig â nhw.

Er mwyn lleihau'r risg o lwgrwobrwyo a llygru, mae'r Coleg wedi mabwysiadu'r polisi canlynol ar roddion a lletygarwch:

- Ni ddylid derbyn rhoddion heb eu brandio â gwerth hyd at £100 heb ganiatâd y Cyfarwyddwr/Pennaeth Cynorthwyol priodol a dim ond gyda chaniatâd y Prif Weithredwr/Pennaeth y gellir derbyn rhoddion dros £100. Rhaid hysbysu'r Cyfarwyddwr Cyllid, Ystadau a Chyfleusterau am bob rhodd/lletygarwch o'r fath i'w cynnwys yn y Gofrestr Rhoddion Corfforaethol a Lletygarwch. Gellir derbyn eitemau bach wedi'u brandio fel beiros, calendrau ac ati â gwerth amcangyfrifiedig o £25. Bydd y Gofrestr yn cael ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn.

- Mae'r Coleg yn ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn sy'n ymgysylltu â chyflenwyr gwasanaethau ac sy'n gweithio gyda phartneriaid ar ran y Coleg sicrhau bod cyflenwyr gwasanaethau a phartneriaid yn cael eu dewis drwy broses ddethol dryloyw a chystadleuol a bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei gynnal ar bartneriaid a chyflenwyr cyn ymrwymo i gontractau. Ceir rhagor o wybodaeth yn Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol y Coleg.

- Rhaid i'r holl staff a chyflenwyr ddeall a chydymffurfio â'r polisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd hwn. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu, mae'r Coleg yn cyhoeddi'r polisi hwn ar fewnrwyd y staff ac ar ei wefan ac yn cyfleu ei bwysigrwydd drwy sesiynau briffio Mewn Cysylltiad i'r holl staff.

- Caiff yr holl staff eu monitro yn erbyn gofyniad i ymgymryd â hyfforddiant statudol rheolaidd sy'n cynnwys:

    - Hanfodion Gwrth-Lwgrwobrwyo
    - Hanfodion Chwythu'r Chwiban - Rhoi Gwybod am Dwyll a Chamymarfer
    - Hanfodion Diogelwch Gwybodaeth (Seiberddiogelwch)

## 4. RIPORTIO TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD

### CANLLAW CYFLYM i Roi Gwybod am Bryder

A oes gennych bryderon am dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd sy'n digwydd yn y Coleg?

| GWNEWCH | PEIDIWCH |
|---|---|
| **Nodi eich pryderon** - cofnodwch fanylion fel eich pryderon, enwau, dyddiadau, amseroedd, manylion sgyrsiau, ffotograffau, sgrinluniau, negeseuon e-bost, ffynonellau cyfryngau eraill a thystion posibl. Nodwch yr amser a'r dyddiad a llofnodwch eich nodiadau | **Herio'r sawl a amheuir** neu gyfleu pryderon i unrhyw un ar wahân i'r rhai a awdurdodwyd. Peidiwch byth â cheisio holi'r sawl a amheuir eich hun; gallai hyn roi rhybudd i dwyllwr neu gyhuddo rhywun diniwed |
| **Cadw tystiolaeth** - cadwch unrhyw dystiolaeth ond dim ond os ydych yn ofni y gallai gael ei dinistrio, neu gwnewch nodyn a rhowch wybod i'ch rheolwr llinell neu'r unigolyn priodol | **Ceisio ymchwilio** neu gysylltu â'r heddlu'n uniongyrchol. Peidiwch byth â cheisio casglu tystiolaeth eich hun oni bai ei bod ar fin cael ei dinistrio; rhaid i gasglu tystiolaeth ddilyn gweithdrefnau cyfreithiol er mwyn iddi fod yn ddefnyddiol |
| **Rhoi gwybod am eich amheuaeth** Bydd eich cyfrinachedd yn cael ei barchu - gallai oedi arwain at ragor o golled ariannol | **Bod ofn mynegi eich pryderon** Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn amddiffyn gweithwyr sydd â phryderon rhesymol; ni fyddwch yn dioddef gwahaniaethu nac erledigaeth drwy ddilyn y gweithdrefnau cywir |
| **Peidio â chynhyrfu** | Peidiwch â defnyddio'r broses i fynd ar drywydd cwyn bersonol. |

**Sut gallaf roi gwybod am amheuon o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd sy'n digwydd yn y Coleg?**

Yn y lle cyntaf, dylech fynegi'r pryder gyda'ch rheolwr llinell fel arfer.

***OND*** os:

- yw'r pryder yn ymwneud â'ch rheolwr llinell, yna dylech ei fynegi i Gyfarwyddwr
- mae'n ymwneud â Chyfarwyddwr; dylid mynegi'r pryder i Is-bennaeth.

- mae'r mater yn ymwneud ag Is-bennaeth, dylid mynegi'r pryder i'r Pennaeth/Prif Weithredwr
- mae'n ymwneud â'r Pennaeth/Prif Weithredwr, dylid mynegi'r pryder i Gadeirydd y Corff Llywodraethu
- mae'n ymwneud â Chadeirydd y Corff Llywodraethu, dylid mynegi'r pryder i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**Beth ddylai staff ei wneud os ydynt yn amau twyll**

1. Anogir staff ac, yn wir, disgwylir iddynt fynegi unrhyw bryder sydd ganddynt, heb ofni cael eu ceryddu. Er mwyn hwyluso hyn, mae gan y Coleg Bolisi Chwythu'r Chwiban. Bydd unrhyw bryderon a fynegir yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol a bydd ymchwiliad priodol yn cael ei gynnal iddynt.

2. Staff yn aml yw'r cyntaf i ganfod achosion posibl o dwyll neu lygredd yn gynnar. Ni ddylai staff geisio cynnal ymchwiliad eu hunain. Gall hyn niweidio unrhyw ymholiad dilynol.

3. Yn y lle cyntaf, dylai staff fel arfer fynegi'r pryder i'w rheolwr llinell. Os yw'r pryder yn ymwneud â rheolwr llinell, yna dylai staff ei fynegi i gyfarwyddwr, ac os yw'n ymwneud â chyfarwyddwr, dylid mynegi'r pryder i Is-bennaeth. Os yw'r mater yn ymwneud â'r Is-bennaeth yna'r Pennaeth/Prif Weithredwr. Os yw'r mater yn ymwneud â'r Pennaeth/Prif Weithredwr, dylid mynegi'r pryder i Gadeirydd y Llywodraethwyr, ac os yw'n ymwneud â Chadeirydd y Llywodraethwyr, dylid mynegi'r pryder i Gadeirydd y Pwyllgorau Archwilio.

4. Pan fydd staff yn cael anhawster troi at eu rheolwr eu hunain, oherwydd pryder bod rheolwyr naill ai'n gysylltiedig â'r mater neu efallai na fyddent yn ei gymryd o ddifrif, gallant gysylltu, drwy'r Swyddog Llywodraethu, â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio neu Gadeirydd y Llywodraethwyr. Gallant hefyd gysylltu â Protect neu Action Fraud (manylion ar dudalen 12).

**Beth ddylai trydydd parti ei wneud os yw'n amau twyll**

1. Gall trydydd partïon roi gwybod am bryderon drwy weithdrefn gwynion gorfforaethol y Coleg sydd i'w gweld ar wefan y Coleg. Gallant hefyd roi gwybod am bryderon yn uniongyrchol i aelodau neu staff y Coleg, a fydd yn uwchgyfeirio'r pryder yn unol â'r Polisi Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

2. Os bydd person yn teimlo na all fynegi ei bryderon yn uniongyrchol i'r Coleg, gall gysylltu ag archwilydd mewnol neu allanol y Coleg, y gellir dod o hyd i'w enw a'i gyfeiriad yng nghyfrifon cyhoeddedig y Coleg.

3. Gall unrhyw un sy'n poeni am ddrwgweithredu sy'n bygwth budd y cyhoedd ofyn am gymorth cyfreithiol cyfrinachol am ddim gan yr elusen 'Protect' neu fel arall gall gysylltu â'r elusen Action Fraud. Mae manylion cyswllt y ddau sefydliad i'w gweld ar ddiwedd y polisi hwn

4. Nid yw'n hawdd codi llais yn erbyn gweithredoedd o dwyll. Bydd y Coleg yn cymryd pob gofal i ddiogelu hunaniaeth unigolyn wrth fynegi pryder os nad yw ef neu hi am i'w enw gael ei ddatgelu. Er y gwneir pob ymdrech bosibl i ddiogelu hunaniaeth unigolyn, rhaid gwerthfawrogi, fodd bynnag, y gallai'r broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell y wybodaeth ac y gallai fod angen datganiad gan yr unigolyn fel rhan o'r dystiolaeth.

5. Mae'r Coleg yn annog unigolion i roi eu henwau i honiadau. Mae pryderon a fynegir yn ddienw yn llawer llai pwerus, ond byddant yn cael eu hystyried yn ôl disgresiwn y Coleg, gan ystyried difrifoldeb y materion a godwyd; hygrededd y pryder; a'r tebygolrwydd o gadarnhau'r honiad o ffynonellau priodol eraill.

**Beth ddylai rheolwr ei wneud pan fydd yn cael gwybod am amheuaeth?**

1. Rhaid i unrhyw reolwr sydd wedi cael gwybodaeth am amheuaeth o dwyll neu amheuaeth o lygredd roi gwybod ar unwaith i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r cyfarwyddwr perthnasol a fydd, lle bo hynny'n briodol, yn sicrhau bod y Pennaeth/Prif Weithredwr a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn cael gwybod.

2. Dylai'r cyfarwyddwr perthnasol, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid, fodloni ei hun bod sail resymol dros yr amheuaeth, a threfnu i ymchwiliad gael ei gynnal. Dylid neilltuo'r ymchwiliad i berson sydd â phrofiad neu gymwysterau priodol. Bryd hynny, dylid rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol am yr ymchwiliad. Bydd unrhyw benderfyniad i gyfeirio'r mater at yr Heddlu yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth/Prif Weithredwr a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio).

3. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn cofnodi adroddiadau o achosion posibl/gwirioneddol o dwyll mewn Cofrestr Twyll ganolog.

4. Dylai'r rheolwyr gymryd camau ar unwaith i atal colled bellach, a dylent gymryd camau i ddiogelu unrhyw dystiolaeth.

5. Dylai'r swyddog ymchwilio gadw unrhyw ddogfennau perthnasol yn ddiogel, yn eu fformat gwreiddiol - ni ddylid ysgrifennu arnynt na'u newid mewn unrhyw ffordd. Argymhellir cadw dogfennau mewn waledi plastig. Rhaid diogelu eitemau neu gyfarpar eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad heb newid eu cyflwr gwreiddiol o gwbl, er enghraifft, cyfrifiaduron personol ac unrhyw gofnodion arnynt.

6. Gallai canlyniad terfynol ymchwiliad arwain at ymddangos yn y llys. Felly, mae'n bwysig bod yr ymchwiliad yn gallu gwrthsefyll trylwyredd croesholi. Mae tystiolaeth yn hanfodol, a dylai'r swyddog ymchwilio gadw tystiolaeth ar ffurf sy'n gyfreithiol dderbyniol.

7. Dylid cadw cofnod manwl o'r ymchwiliad. Dylai hyn gynnwys ffeil gronolegol sy'n cofnodi manylion sgyrsiau dros y ffôn, trafodaethau, cyfarfodydd a chyfweliadau, manylion y dogfennau a adolygwyd, a manylion unrhyw brofion a dadansoddiadau a gynhaliwyd.

8. Dylid cynnal pob cyfweliad mewn ffordd deg a phriodol. Os oes posibilrwydd o erlyniad troseddol, dylid gofyn am gyngor gan yr heddlu i sicrhau bod gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) yn cael eu bodloni. Dylai'r swyddog ymchwilio geisio cyngor gan y Cyfarwyddwr (Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol) cyn cynnal unrhyw gyfweliadau.

9. Bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol yn rhoi cyngor ar y camau sydd eu hangen i sicrhau unrhyw arian parod a thystiolaeth, a bydd yn cynghori ar weithdrefnau disgyblu, yn enwedig lle gallai fod angen atal staff dros dro.

10. Ni ddylid datgelu unrhyw wybodaeth i unrhyw un ar wahân i'r grŵp bach o uwch reolwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r ymchwiliad.

11. Ni ddylid datgelu unrhyw wybodaeth i'r wasg na'r cyfryngau. Y cyfarwyddwr perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth/Prif Weithredwr, fydd yn gyfrifol am rannu gwybodaeth â'r cyfryngau drwy dimau Cyfathrebu/Marchnata'r Coleg.

**Rôl Archwilio Mewnol**

Cyfrifoldeb y rheolwyr yw cynnal systemau a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol ar weithgareddau cymeradwy. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros atal a chanfod twyll a gweithredoedd anghyfreithlon eraill. Rhaid i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ystyried y posibilrwydd o ddrwgweithredu o'r fath a dylai geisio canfod diffygion difrifol mewn rheolaeth fewnol a allai ganiatáu i ddigwyddiadau o'r fath ddigwydd. Dylai'r Is-bennaeth(Adnoddau a Chynllunio) roi gwybod i ddarparwr yr archwiliad mewnol am unrhyw ddarganfyddiad neu amheuaeth o dwyll. Yn yr un modd, dylai darparwr yr archwiliad mewnol roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) os bydd staff archwilio mewnol yn canfod tystiolaeth neu amheuaeth o dwyll.

## 5. CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

### Action Fraud

| | |
|---|---|
| Action Fraud yw canolfan riportio genedlaethol y DU ar gyfer twyll a seiberdroseddu lle dylech roi gwybod am dwyll os ydych chi wedi cael eich sgamio, eich twyllo neu wedi profi seiberdroseddu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon | ActionFraud<br>National Fraud & Cyber Crime Reporting Centre<br>0300 123 2040 |

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

| | |
|---|---|
| Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn **berson rhagnodedig at ddibenion Chwythu'r Chwiban.** Mae hyn yn golygu y gall gweithiwr roi gwybod am bryderon am ddrwgweithredu mewn gweithle i'r Archwilydd Cyffredinol, yn ogystal â'i gyflogwr, neu yn lle hynny.<br><br>Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried pob datgeliad a gaiff, ond nid oes rhaid iddo ymchwilio iddo. | **E-bost:** whistleblowing@audit.wales<br>**Ffôn:** 029 20 320 522<br>**Post:**<br>Swyddog PIDA<br>Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>24 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd<br>CF11 9LJ<br>Archwilio Cymru<br>Audit Wales |

### Protect

| | |
|---|---|
| Protect (Public Concern at Work gynt) yw elusen chwythu'r chwiban y DU. Nod yr elusen yw atal niwed drwy annog chwythu'r chwiban yn ddiogel. Maent yn darparu llinell gyngor gyfrinachol am ddim sy'n cefnogi dros 3,000 o chwythwyr chwiban bob blwyddyn sydd wedi gweld camymarfer, risg neu ddrwgweithredu yn y gweithle.<br><br>Fe'ch cynghorir i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol cyn gwneud datgeliadau y tu allan i'r Coleg gan mai dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y cewch eich gwarchod yn gyfreithiol. | https://protect-advice.org.uk/contact-protect-advice-line/<br><br>**PROTECT**<br>The Green House<br>244-254 Cambridge Heath Road<br>London E2 9DA<br>Protect<br>Speak up, stop harm |

### Llywodraeth Cymru fel Prif Reoleiddiwr elusennau sydd wedi'u hesemptio

| | |
|---|---|
| Mae Colegau Addysg Bellach wedi'u dynodi'n elusennau esempt o dan Atodlen 3 i Ddeddf Elusennau 2011.<br><br>Yng Nghymru, mae un o Weinidogion Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel Prif Reoleiddiwr i'r Colegau AB, i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Elusennau 2011 | The role of the Welsh Ministers as the Principal Regulator of exempt charities<br>Welsh Further Education Corporations and St David's Catholic Sixth Form College<br>Llywodraeth Cymru<br>Welsh Government<br>www.gov.wales |

## 6. POLISÏAU A DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG

- Polisi Chwythu’r Chwiban
- Gweithdrefnau a Rheoleiddio Ariannol
- Polisi Disgyblu
- Polisi Rheoli'r Trysorlys
- Polisi Treuliau a Buddiannau
- Polisi Recriwtio
- Cod Ymddygiad Staff
- Gwerthoedd ac Ymddygiadau Craidd